COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANBEDR DYFFRYN CLWYD A GYNHALIWYD AR DDYDD LLUN 1 GORFFENNAF 2019 YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y PENTREF, LLANBEDR AM 7.30 Y.H.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Lyn Evans (Cadeirydd), Jackie Bird, Dave Ritchie, Ken Tams, Nick Smith, Bob Barton, Gruff Jones a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Tim Baker a Rhian Jones.

2: DATGANIADAU O DDIDDORDEB
Dim.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.
Derbyniodd yr aelodau gofnodion cyfarfod 3 Mai 2019 fel rhai cywir, a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.
A. Cylchgrawn Link – Adroddodd y Cynghorydd Lyn Evans fel a ganlyn:-
1. Costau dosbarthu – talodd y Cyngor Cymuned £231.50 am stampiau/amlenni. Costiodd rhifyn y chwarter hwn £155.38 i'w ddosbarthu gan adael £75.12 ar gyfer dosbarthu yn y dyfodol.
2. Diolchwyd i Fiona Culvar, Dave Ritchie a Lyn Evans am lenwi a chyfeirio'r amlenni ac i Fiona Culvar, Gruff Jones a'r teulu, Ken Tams a Jean Davies am y dosbarthu.
B. Trafododd yr Aelodau'r opsiwn o barhau i gyfrannu at y "Link" neu ein bod fel Cyngor yn llunio ein pamffled ein hunain i'w rhoi yn y "Link". Bydd Lyn Evans yn ymchwilio i hyn.
C. Nid oes unrhyw newydd parthed Man Gwyrdd y Cynllun Datblygu Lleol (yr ardal tu ôl i'r fynwent) ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.
D. Ni dderbyniwyd unrhyw newydd gan Bwyllgor Neuadd y Pentref parthed cais y Cyngor Cymuned am eglurdeb pellach ynghylch eu strategaeth ar gyfer y dyfodol oedd ei angen cyn y gall y Cyngor ystyried unrhyw geisiadau cyllid ychwanegol.
E. Llochesi Fysiau Llanbedr:–
1. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi barbio'r gwrych/eiddew o gwmpas lloches yr A494. Cafodd y Cynghorwyr Lyn Evans a Bob Barton gyfarfod â Martin Griffiths o Gyngor Sir Ddinbych, ac fe wnaeth yntau gadarnhau mai cyfrifoldeb Cyngor Cymuned Llanbedr yw holl atgyweirio a chynnal a chadw'r ddwy loches bysiau yn Llanbedr. Cytunodd Mr Griffiths i gais y Cynghorydd Barton am ffigurau defnyddio'r llochesi fysiau. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol yn y dyfodol wrth wneud unrhyw benderfyniadau cyllido ar gyfer ceisiadau am gyllid prosiect llochesi fysiau. Amlinellodd Mr Griffiths brosiect Cyngor Sir Ddinbych i adeiladu lloches fysiau yn Clwyd Gate. Byddwn yn clywed mwy am hyn yn fuan.
2. Mae gwaith adfer llochesi fysiau a dodrefn stryd Cyngor Cymuned Llanbedr wedi ei rwystro gan dywydd drwg. Bydd y Cyng Lyn Evans yn monitro'r sefyllfa..
E. Mae'r Clerc wedi cwblhau ffurflen gais "Bancio Rhyngrwyd" Banc y Nat West, a chafodd y ffurflen ei chadarnhau a'i llofnodi yn y cyfarfod.
G. Rhoddodd y Cynghorydd Bob Barton adroddiad ysgrifenedig byr i'r aelodau ar gynhadledd ar y cyd Un Llais Cymru a Cymorth Cynllunio Cymru ar "Llunio'ch Cymuned - Rôl Cynlluniau Cymunedol a Chynlluniau Lle".
H. Mae'r Cynghorydd Bob Barton yn cyfathrebu â'r awdurdodau perthnasol ynghylch y mesurau tawelu traffig ar gyfer Llanbedr.

I. Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn fwy na pharod i gael trafodaeth agored ynglŷn â defnyddio'r man agored cyhoeddus a fydd wedi'i leoli ar y datblygiad newydd. Mae'r man agored oddeutu 90 metr o hyd ac 20 metr o led, sef 1800m2 neu .018 hectar.

5. DIWEDDARIAD GWIRIO CYFLYMDER.
Cyflwynodd y Cynghorwyr Gruff Jones a Dave Ritchie ddiweddariad i'r Aelodau ynglŷn â Chynllun Gwirio Cyflymder Llanbedr, gan addo darparu data i'r Clerc i'w rannu ymhlith yr aelodau. Gofynnwyd i'r Clerc ddiolch i John Morris o Heddlu Gogledd Cymru am ei gymorth gyda'r "Cynllun Gwirio Cyflymder".

6. CAIS GRANT EGLWYS HYNAFOL SANT PEDR.
Nid oedd y Cyng Rhian Jones yn bresennol yn y cyfarfod, felly ni chafwyd diweddariad ar gais grant Eglwys Hynafol Sant Pedr.

7. LLYTHYR ADRAN 106.
Datgelodd y Cyng Nick Smith i'r Aelodau gynnwys y llythyr Adran 106 sydd i'w anfon i Gyngor Sir Ddinbych parthed Cynllun Taliad Swm Cymudedig Mannau Agored Cyngor Cymuned Sir Ddinbych ar gyfer Llanbedr. Cytunodd y Cyngor i anfon y llythyr i Gyngor Sir Ddinbych fel marciwr i Gymuned Llanbedr fod y lle cyntaf ar gyfer gwariant..

8. CYNLLUNIO DATBLYGU CYMUNEDOL.
Trafododd yr aelodau restr ddymuniadau Llanbedr Dyffryn Clwyd a phenderfynwyd fel a ganlyn:-
A: Is-bwyllgor o'r Cynghorwyr Gruff Jones, Nick Smith a Bob Barton i drafod Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Datblygu Lleol Cyngor Sir Dinbych ar gyfer Cynlluniau Lle Cyngor Cymuned Llanbedr Dyffryn Clwyd.
B. Cytunodd y Cyng Gruff Jones i baratoi "Holiadur Cymunedol" er mwyn darganfod blaenoriaethau'r etholwyr parthed gwariant y Cyngor ac ati.
Gofynnodd y Pwyllgor iddynt adrodd yn ôl am unrhyw gynnydd ymhen 14 diwrnod.

9. DIGWYDDIADAU GOLEUADAU NADOLIG.
Dywedodd y Cyng Lyn Evans fod rhywun wedi cysylltu â'r holl brif gyfranogwyr a'u bod wedi cytuno i gymryd rhan – y Parch Philip Chew, Neuadd y Pentref, Ysgol Llanbedr, Richard Thomas, Geoff Andrew - ac fe archebwyd yr U3A ukulele group ar gyfer adloniant cerddorol. Mae'r Cyng Jackie Bird wedi cytuno i edrych ar ddarparu'r bwyd, ac mae'r Cyng Gruff Jones yn edrych ar y posibilrwydd o gael trwydded Nadolig unwaith ac am byth.

10. CYLLID.
A. Balansau Banc ar 5 Mehefin 2019:-
1. Cyfrif Cyfredol y Nat West - £19,635.63.
2. Cyfrif Cadw'r Nat West - £9,340.87.
B. Taliadau awdurdodedig:-
1. Brenda Jones – cyfieithu Cofnodion mis Mai - £55.00.
2. Krystal Hosting Cyf – Adnewyddu Gwefan - £47.99.
3. Brown Hen Web Design – Ffioedd Gwefeistr Gwefan – mis Ebrill 2017 i fis Mehefin 2019 - £142.00.
4. Cyngor Sir Ddinbych am dorri'r gwrych/eiddew o gwmpas Lloches Fysiau'r Cyngor Cymuned ar yr A494 yn Llanbedr - £180.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.
Yn dilyn adroddiad y Cyng Nick Smith, nid oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-
A. Cais: 16/2019/0481 - Newidiadau ac estyniadau i annedd i ddarparu llety byw ychwanegol yn y to (cais wedi'i ddiwygio) yn 2 Tunnel Bungalow, Llanbedr.
B. Cais: 16/2019/0409 – Dymchwel adeiladau allanol presennol, codi adeilad allanol newydd a chreu lle parcio ychwanegol (Cais Adeilad Rhestredig) ym Maenor Plas Isaf, Llanbedr Dyffryn Clwyd.

12. GOHEBIAETH.
A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi caniatâd cynllunio i adeiladu estyniad, darparu diangfeydd tân a gwneud addasiadau mewnol yn Nhafarn y Griffin, Llanbedr.
B. Bydd Adroddiad Terfynol o'r Argymhellion ar yr Adolygiad o Drefniadau Etholiadol Sir Dinbych gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Lleol Cymru yn newid Ward bresennol Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal i'r argymhelliad olaf, sef Ward Moel Famau. Bydd y Ward newydd yn cynnwys Cymunedau Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llangynhafal a Llanferres.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Dim gwybodaeth na chyswllt eto'r mis hwn.

14. MATER BRYS DAN ADRAN 100B(4) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.
A. Soniodd y Cynghorydd Jackie Bird am y gwrych sydd wedi gordyfu ar Lon Cae Glas yn Llanbedr. Penderfynodd yr Aelodau y dylai'r Clerc hysbysu Cyngor Sir Ddinbych o hyn.
B. Gofynnodd y Cyng Bob Barton i'r Siarter rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned fod ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - Dydd Llun 2 Medi 2019 yn Neuadd y Pentref, Llanbedr Dyffryn Clwyd am 7.30 y.h.